
Disgrifiad Swydd Swyddog Cymuned

Pwrpas

Mae Swyddog Cymuned Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot yn gyfrifol am ddatblygu, cynyddu a darparu nifer o gyfleoedd i bobl o bob gallu ieithyddol i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg. Maent yn gyfrifol am rhoi ar waith nifer o brosiectau mewn awyrgylch cefnogol a chyfeillgar o fewn bwrdeistref Castell-nedd a Phort Talbot.

Prif Gyfrifoldebau

- Llunio a gweithredu cynllun gweithredol ar gyfer ardal Castell-nedd a Phort Talbot trwy ymgynghori gyda'r bobl leol a mesur galw am brosiectau.
- Adnabod cyfleoedd yn ardal Castell-nedd Port Talbot i ddatblygu a gweithredu gweithgareddau, prosiectau a digwyddiadau a fydd yn cyrraedd nodau ac amcanion y Fenter.
- Adnabod partneriaid a mudiadau lleol y gellir cydweithio ag er mwyn cyrraedd y nodau ac amcanion yma.
- Rhannu negeseuon, creu posteri/digwyddiadau a marchnata gan ddefnyddio ffynonellau cymdeithasol; Facebook, Instagram, gwefan ac ebyst, yn ogystal a phapurau bro.
- Adnabod ffynonellau cyllid priodol ar gyfer prosiectau a pharatoi ceisiadau am nawdd mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog a'r Pwyllgor Rheoli.
- Trefnu, mynychu a gweinyddu cyfarfodydd amrywiol yn ôl yr angen.
- Creu adnoddau a chynnwys digidol (gan gynnwys fideos) ar gyfer platfformau'r Fenter; Facebook, Instagram, Youtube a mwy.
- Gweithredu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn unol â'r galw.
- Cynorthwyo â chynlluniau cyffredinol a digwyddiadau'r Fenter yn ôl y galw.
- Adrodd nŵl yn llawn ar brosiectau i'r Prif Swyddog yn gyson ac i'r Pwyllgor Rheoli a chyrff allanol pan fydd angen.
- Adrodd nŵl ar dargedau Llywodraeth Cymru yn gywir ac ar amser.
- Rheoli, gweithredu, gwerthuso a monitro prosiectau gan gynnwys cyllid.
- Trefnu gwaith heb gyfarwyddyd uniongyrchol.
- Hyrwyddo delwedd gyhoeddus y Fenter gan fynychu digwyddiadau perthnasol.
- Rheoli amser, cwrdd ag amcanion a chadw at gyllideb, nodau a gweithdrefnau.
- Parodrwydd i weithio'n greadigol gydag agwedd o ddatrys problemau.
- Sicrhau cysylltiadau da gyda'r wasg a'r cyfryngau.
- Diweddarw gwefan y Fenter yn gyson.
- Cydweithio fel rhan o dîm.
- Llenwi eich taflen oriau a danfon i'r Prif Swyddog yn gywir ac ar amser.
- Cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol a phersonol.
- Cyfrannu at unrhyw agwedd o waith y Fenter neu waith arall yn ôl y galw.
- Gweithredu yn unol â Pholisïau a Gweithdrefnau Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot, yn cynnwys rheoli risg a materion iechyd a diogelwch.
- Dealltwriaeth o rôl a phwrpas Menter Iaith.
- Ymwybyddiaeth o bolisiau a strategaethau sirol a chenedlaethol sy'n berthnasol i waith iaith a datblygu cymunedol.
- Fe fydd cyfleoedd i ddirprwyo ar ran y brif swyddfa yn codi o bryd i'w gilydd.
- Unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill yn ôl y galw.